YSTADEGAU, DOGFENNU

# Arolwg blynyddol o oriau ac enillion: 2024

Data ar enillion cyfartalog gros bob awr, wythnosol ac yn flynyddol yn y DU i lawr at lefel awdurdod lleol ar gyfer 2024.

**Cyhoeddwyd gyntaf:** 30 Hydref 2024

**Diweddarwyd ddiwethaf:** 30 Hydref 2024

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/arolwg-blynyddol-o-oriau-ac-enillion-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Cynnwys

**Cyflwyniad**

**Effaith pandemig y coronafeirws (COVID-19)**

**Prif bwyntiau**

**Nodiadau**

**Gwybodaeth bellach**

**Manylion cyswllt**

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/arolwg-blynyddol-o-oriau-ac-enillion-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Cyflwyniad

Mae’r arolwg yn rhoi gwybodaeth am lefelau, dosbarthiad a chyfansoddiad enillion a’r oriau a weithiwyd gan weithwyr ym mhob diwydiant a swydd.

Mae'r Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion ond yn cynnwys cyflogai ac yn eithrio incwm a enillir o hunangyflogaeth, pensiynau a ffynonellau eraill.

# Effaith pandemig y coronafeirws (COVID-19)

Mae'r pandemig wedi arwain at nifer o gymhlethdodau sy'n ei gwneud yn anodd dehongli data enillion. **Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol wedi cyhoeddi blog yn esbonio hyn**. O ganlyniad, mae’r amcangyfrifon ar gyfer 2020, 2021 a 2022 ychydig yn fwy ansicr na'r arfer.

# Prif bwyntiau

## Enillion wythnosol llawn amser

Roedd enillion wythnosol gros canolrifol oedolion sy’n gweithio llawn amser yng Nghymru yn £674.5 ym mis Ebrill 2024, sef 92.6% o gyfartaledd y DU cyfan (£728.3). Enillion wythnosol gros canolrifol yng Nghymru oedd yr wythfed uchaf o'r 12 o wledydd y DU a rhanbarthau Lloegr.

Cynyddodd enillion wythnosol gros canolrifol ar gyfer oedolion llawn amser sy'n gweithio yng Nghymru 6.0% rhwng 2023 a 2024, o'i gymharu â chynnydd o 6.1% rhwng 2022 a 2024.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/arolwg-blynyddol-o-oriau-ac-enillion-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Cynyddodd y DU 6.0% rhwng 2023 a 2024. Cafodd Cymru’r pedwerydd newid canrannol uchaf ymhlith y 12 gwlad yn y DU a rhanbarthau Lloegr.

## Enillion yn seiliedig ar breswylfa

Bu cynnydd o 6.4% (i £684.4) dros y flwyddyn yn enillion canolrifol gweithwyr amser llawn sy’n byw yng Nghymru. Yn 2024 roedd y lefel yn 94.0% y cant o gyfartaledd y DU.

## Enillion llawn amser blynyddol

Roedd enillion blynyddol gros canolrifol ar gyfer oedolion llawn amser sy'n gweithio yng Nghymru yn £34,303 ar gyfer y flwyddyn dreth a ddaeth i ben ar 5 Ebrill 2024, cynnydd o 6.0% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

## Bwlch tâl rhyw


Mae'r gwahaniaeth tâl (llawn amser) ar gyfer rhywedd yng Nghymru yn un o'r **dangosyddion lles cenedlaethol**. Mae carreg filltir genedlaethol wedi'i gosod ar gyfer y dangosydd cenedlaethol hwn sef dileu'r bwlch cyflog. Gweler y nodiadau am ragor o wybodaeth.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/arolwg-blynyddol-o-oriau-ac-enillion-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

**Ffigur 1: Y gwahaniaeth mewn cyflog rhwng y rhywiau yng Nghymru yn ôl blwyddyn (canolrif enillion fesul awr ar gyfer gweithwyr llawn amser heb gynnwys goramser) (£), 1997 i 2024**




Disgrifiad o Ffigwr 1: Siart llinell sy’n dangos bod gwahaniaeth tâl rhwng y rhywiau ar sail canolrif enillion llawn amser bob awr (heb gynnwys goramser) wedi lleihau yn raddol ers 1997.

Ffynhonnell: Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion

Roedd y bwlch cyflog canolrifol fesul awr (heb gynnwys goramser) rhwng y rhywiau ym mhlith gweithwyr llawn amser ym mis Ebrill 2024 yn 1.9% yng Nghymru ac 7.0% yn y DU. Yng Nghymru nid oedd newid yn y bwlch, ac yn y DU ehangodd 0.5 pwynt canran o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

Roedd bwlch cyflog rhwng y rhywiau bob awr (heb gynnwys goramser) ar gyfer holl weithwyr ym mis Ebrill 2024 yn 8.9% yng Nghymru a 13.1% yn y DU. Yng Nghymru ehangodd y bwlch 2.6 pwynt canran, ac yn y DU roedd lleihad o 1.1 pwynt canran o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/arolwg-blynyddol-o-oriau-ac-enillion-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Ar gyfer gweithwyr rhan-amser mae menywod fel arfer yn ennill mwy na gwrywod, gan arwain at fwlch cyflog negyddol. Roedd y bwlch cyflog canolrif fesul awr (heb gynnwys goramser) rhwng y rhywiau ym mhlith gweithwyr rhan-amser ym mis Ebrill 2024 yn -3.5% yng Nghymru, gan ehangu 0.3 pwynt canran o gymharu a'r flwyddyn flaenorol. Y bwlch ar gyfer y DU oedd -3.0%, sef yr un peth a'r flwyddyn flaenorol. Gall y bwlch cyflog rhan amser islaw lefel y DU fod yn anweddol.

# Nodiadau

## Esboniad am y gwahaniaeth yn amcangyfrif y bwlch cyflog rhwng y rhywiau rhwng gweithwyr llawn-amser a holl weithwyr

Mae amcangyfrif y bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn cael ei gyfrifo fel cyfran wahaniaethol dau amcangyfrif canolrif, pwyntiau canol y data, un ar gyfer benywod ac un ar gyfer gwrywod. Mae cyfansoddiad y gweithluoedd gweithwyr gwrywaidd a benywaidd yn eithaf gwahanol, gyda mwy o fenywod yn gweithio rhan amser na dynion. Gan fod enillion gweithwyr rhan amser yn dueddol o fod yn llai, ar gyfartaledd, nag enillion gweithwyr llawn amser, mae hyn yn golygu bod menywod yn fwy tebygol o dderbyn cyfraddau tal is fesur awr. Y ffaith hon sy'n gymorth i egluro pam fod y bwlch cyflog rhwng y rhywiau ar gyfer holl weithwyr llawn amser a rhan amser yn fwy na'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau ar gyfer gweithwyr llawn amser yn unig.

## Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (WFG)

Hanfod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 yw gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r Ddeddf

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/arolwg-blynyddol-o-oriau-ac-enillion-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

yn sefydlu saith nod llesiant i Gymru sef Cymru fwy cyfartal, llewyrchus, cydnerth, iach a chyfrifol ar lefel fyd-eang, gyda chymunedau cydlynol a diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu. O dan adran (10)(1) o'r Ddeddf, rhaid i Weinidogion Cymru (a) gyhoeddi dangosyddion ("dangosyddion cenedlaethol" sy'n gorfod cael eu cymhwyso at ddibenion mesur cynnydd tuag at gyflawni'r nodau llesiant, a (b) gosod copi o'r dangosyddion cenedlaethol gerbron Senedd Cymru. Mae'r 50 o ddangosyddion cenedlaethol a osodwyd ym mis Rhagfyr 2021 yn disodli'r 46 o ddangosyddion cenedlaethol a osodwyd yn mis Mawrth 2016, ac mae'r datganiad hwn yn cynnwys y dangosydd cenedlaethol canlynol:

- (17) Y gwahaniaeth cyflog ar sail rhyw, anabledd ac ethnigrwydd

Bydd setiau data ar StatsCymru yn cael eu diweddaru yn dilyn y cyhoeddiad hwn.

## Gwybodaeth bellach

I gael rhagor owybodaeth am ansawdd a methodoleg y data a ddefnyddir yn y pennawd hwn,gweler **adroddiad gwybodaeth am ansawdd a methodoleg Arolwg Blynyddol Oriau ac Enillion** y Swyddfa Ystadegau Gwladol.

## Manylion cyswllt

Ystadegydd: Joshua Cruickshank
E-bost: **ystadegau.marchnadlafur@llyw.cymru**

Cyfryngau: 0300 025 8099

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/arolwg-blynyddol-o-oriau-ac-enillion-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

**Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.**
Drllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/arolwg-blynyddol-o-oriau-ac-enillion-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.